COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM  26.09.2023

PRESENNOL – Gwyn Davies, Carwyn Edwards (Cadeirydd), Gwynfryn Jones, Llyr Jones,  Alun Jones,Glennydd Evans, Sioned Jones, Rhian Ellis (Clerc).

Cyn I eitemau ar agenda y Cyfarfod Cymuned gychwyn fe ddaeth Mr a Mrs Lovens (perchnogion yr Eglwys) atom I roi ger bron eu cynlluniau ar gyfer yr adeilad ond fod angen yr hawl I osod digester tu allan.  Mi fuasai yn hoffi cael gwneud y lle I fynnu a'I osod allan ar denantiaeth hir yn hytrach na Air B&B. Nodwyd os na fyddant yn medru derbyn grant yna ni fyddant yn medru symud ymlaen gyda'r Gwaith. Byddant yn hoffi darn o dir hefyd I osod bwrdd a chadeiriau i fobol gael eistedd tu allan.

Trafodwyd a phenderfynwyd I gytuno mewn egwyddor ond bod angen gair gyda chyfreithwyr

1.YMDDIHEURIADAU –  Awel Hughes, Cyng. Gwennol Ellis.

2. DATGAN BUDDIANNAU –

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Dyweddod Llyr ei fod yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf ond fod ei enw ddim yn y cofnodion. Cynigwyd yn gywir gyda'r newidiadau gan Llyr ac eilwyd gan Alun.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION – DIM

5. CYLLIDEB  -  Yn y Banc 31.08.23       £21,507.82

Gwariant hyd yma Nant Fach - £0

6. TALIADAU -  Cynigwyd talu yr isod gan Sioned  ac eilwyd gan Gwyn a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| 1. Amaethwyr Corwen (Giat I Parc Dinmael) | s19 | £273.90 |
| 2. Cyngor Conwy Rhaglen yr Haf | s137 | £200.00* |

7. NEUADD FACH -   To y neuadd fach wedi ei thrwsio, doedd dim dirfrod yn y coed ond fod y 'guttering' yn beryg felly wedi ei drwsio dros dro, y ridge tiles wedi ei drwsio a  hefyd  wedi ail bwyntio y corn mwg

8.CAEAU CHWARAE -

Dinmael – Giat wedi ei gosod yn ei lle.

9.  CYNLLUNIO  – DIM

10. GOHEBIAETH – Llythyr gan Cylch Meithrin Cerrigydrudion yn gofyn am gyfraniad tuag at brynnu cadair pwrbasol I'r cylch. Penderfynwyd ein bod am roi £100 iddynt.

11. Cafwyd adroddiad ysgrifennedig gan Cyng. Gwennol Ellis.

.

12. UNRHYW FATER ARALL

Y Clerc I ofyn I Tegni am gyfraniad tuag at adnewyddu drws y Cwt Hers.

1. Pwyllgor y Ganolfan yn gofyn am 2 gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned I fod ar y Pwyllgor. Enwebwyd yr is-gadeirydd bob blwyddyn I fod ar y Pwyllgor.

2, Pont y Glyn – angen I'r clerc hysbysu y cyngor pod y llwybyr yn slip a hefyd nad oes cerbydau trwm yn cael mynd drosti.

3. Cornel Hendre Arddwyfan yn dal heb ei hadnewyddu.

4. Wal wedi disgyn gyferbyn a Ty'n Pistyll

5. Carreg Clo wedi disgyn ar y bont wrth Glanrafon

6 Angen torri gwrych rhwng Penyfed a Glanrafon,.

13. EITEMAU I'R PWYLLGOR NESA'. –

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

22ain Tachwedd 2023